

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	9 Mai 2023
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Win-Mullen James - Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio
Pennaeth Gwasanaeth	Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Awdur yr adroddiad	Lara Griffiths - Prif Swyddog Cynllunio
Teitl	Adroddiad Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi rôl y Strategaeth a Ffefrir drafft; beth mae'n ei gynnwys; yr ymgynghoriad a gyflawnwyd, a'r pwyntiau allweddol yn codi o'r ymgynghoriad. Mae'r Adroddiad Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir atodedig (Atodiad 2) yn rhoi manylion yr ymgynghoriad a gyflawnwyd, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r diwygiadau a argymhellir i'r Strategaeth a Ffefrir.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ar yr Adroddiad Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI Newydd. Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth a Ffefrir y CDLI gyda'r newidiadau a argymhellwyd gan y Grŵp Cynllunio Strategol (23/02/2023) a'r Cabinet ar 28 Mawrth 2023.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

- 3.2 Bod y Cyngor yn argymhell y Strategaeth a Ffefrir fel y diwygiwyd yn yr adroddiad hwn.
- 3.3 Bod y Cyngor yn argymhell bod y Strategaeth a Ffefrir gymeradwy fel y diwygiwyd yn yr adroddiad hwn yn ffurfio sail i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio i gael ei ymgynghori.
- 3.4 Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i gytuno ar unrhyw fân newidiadau a chywiriadau sydd eu hangen i Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

4 Manylion yr adroddiad

- 4.1 Cafodd y Strategaeth a Ffefrir drafft ei gymeradwyo gan y Cyngor i'w ymgynghori ar 14 Mai 2019 a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir Drafft a Chofrestr Safleoedd Ymgeisydd rhwng 8 Gorffennaf 2019 a 30 Awst 2019. Daeth dros 2,850 o ymatebion i law mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisydd a'r Strategaeth a Ffefrir drafft ar gyfer y CDLI, o'r rhain roedd 858 yn berthnasol i'r Strategaeth a Ffefrir. Lle mae newidiadau wedi bod i'r polisi cenedlaethol neu sail dystiolaeth sydd wedi arwain at newidiadau a argymhellwyd i'r Strategaeth a Ffefrir, mae'r rhain hefyd wedi eu hamlygu yn yr Adroddiad Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir a atodir yn Atodiad 2.
- 4.2 Yn gryno'r prif newidiadau i'r Strategaeth a Ffefrir yw gwneud cyfeiriadau ychwanegol i liniaru newid hinsawdd, lleihad carbon a Theithio Llesol yng ngweledigaeth y CDLI, amcanion a pholisïau allweddol. Mae newidiadau allweddol pellach yn cynnwys tynnu Safle Strategol Bodelwyddan o'r CDLI a lleihau faint o dir gwyrdd newydd, defnydd o dir B newydd a defnyddio tir cyflogaeth i gael ei ddyrannu i'r cynllun.
- 4.3 Mae adroddiad eglurhaol i'r cyfarfod Grŵp Cynllunio Strategol ar 23 Chwefror 2023 wedi'i atodi fel Atodiad 1, ac mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r newidiadau a argymhellwyd i'r Strategaeth a Ffefrir. Cafodd mân ddiwygiad i gynnwys cyfeiriad at 'dreftadaeth' yn y Polisi Allweddol Economi Ymwelwyr ei gynnwys yn dilyn y Cabinet ar 28 Mawrth 2023. Mae Adroddiad Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir i'w weld yn Atodiad 2, yn nodi'r manylion llawn yr ymgynghoriad a gyflawnwyd; yr ymatebion a ddaeth i law, a'r diwygiadau a argymhellwyd i'r Strategaeth a Ffefrir i'r CDLI Newydd. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael eu hasesu drwy'r Gwerthusiad

Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac mae'r canlyniadau wedi llunio'r newidiadau arfaethedig terfynol.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at weithredu'r blaenoriaethau Cyngor canlynol fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027.
- 5.2 Bydd y CDLI Newydd yn cynnwys polisïau a dyraniadau tir a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nod y Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Ni fydd cymeradwyo'r Adroddiad Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn effeithio ar wasanaethau eraill.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1 Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn ddogfen lefel uchel sydd yn ceisio hyrwyddo datblygiad cynaliadwy o fewn y Sir. Mae'r mwyafrif o effeithiau yn debygol o fod yn niwtral neu'n gadarnhaol gan fod gan y cynllun Cynaliadwyedd yn ei wraidd. Mae'r strategaeth wedi bod yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd sydd yn asesu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y strategaeth a'r opsiynau a roddwyd ystyriaeth iddynt. Hefyd cyflawnwyd Asesiad o Effaith ar Iechyd fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir.
- 7.2 Bydd llawer o'r lliniaru a nodir yn cael ei gynnwys ar y cam Archwilio gan y cyhoedd pan fydd polisïau manwl yn cael eu datblygu a fydd yn arddangos y gellir lliniaru effeithiau negyddol. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd polisïau ychwanegol sydd yn berthnasol i newid hinsawdd, lleihau carbon a Theithio Llesol yn cael eu cynnwys yn y CDLI i'w Archwilio.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir ei adrodd i'r Grŵp Cynllunio Strategol ar 23 Chwefror 2023 a'r cabinet ar 28 Mawrth 2023, lle argymhellwyd iddo fynd i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau y gall unrhyw adnoddau ychwanegol gael eu cynnal o fewn yr adnoddau presennol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Os na fydd yr Adroddiad Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yna bydd oedi sylweddol yn natblygiad y CDLI newydd. Bydd angen Strategaeth a Ffefrir wedi'i gymeradwyo cyn i unrhyw gamau ymgynghori statudol pellach ddigwydd. Bydd y Cyngor yn dibynnu'n gynyddol ar bolisi cenedlaethol yn hytrach na pholisi lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a fydd yn erydu penderfyniadau lleol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015